***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 1

*(a gyflwynir gan adran 4)*

## ANGHYMWYSO RHAG BOD YN AELOD O'R BWRDD

1 Mae'r personau canlynol wedi'u hanghymwyso rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd—

(a) aelod o'r Cynulliad,

(b) y Cwnsler Cyffredinol (os nad yw'n aelod o'r Cynulliad),

(c) ymgeisydd i'w ethol yn aelod o'r Cynulliad,

(d) person y gallai fod angen i'w enw, pe bai sedd aelod Cynulliad rhanbarthol yn dod yn wag, gael ei hysbysu i'r Llywydd o dan adran 11 o'r Ddeddf (seddi gwag mewn rhanbarthau etholiadol),

(e) aelod o Senedd Ewrop, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon,

(f) aelod o staff y Cynulliad,

(g) aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru,

(h) person a gyflogir gan aelod o'r Cynulliad neu gan grŵp o aelodau'r Cynulliad er mwyn helpu'r aelod hwnnw neu'r aelodau o'r grŵp hwnnw i gyflawni swyddogaethau aelod o'r Cynulliad,

(i) Archwilydd Cyffredinol Cymru,

(j) Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

(k) aelod o Bwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol Comisiwn y Cynulliad,

(l) person sy'n dal apwyntiad fel Ymgynghorydd Annibynnol i Gomisiwn y Cynulliad,

(m) person a oedd yn aelod o'r nail neu'r llall o'r panelu a apwyntiwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i adolygu cyflogau a lwfansau aelodau o'r Cynulliad yn unol â phenderfyniadau Comisiwn y Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2007 ac 8 Mai 2008,

(n) person sy'n dal apwyntiad fel Cyfarwyddwr Anweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2 At ddibenion paragraff 1(c) daw person yn ymgeisydd i'w ethol yn aelod o'r Cynulliad—

(a) ar y diwrnod y datgenir bod y person hwnnw'n ymgeisydd (boed gan y person o dan sylw neu gan eraill ), neu

(b) ar y diwrnod yr enwebir y person hwnnw'n ymgeisydd mewn etholiad i'r Cynulliad,

p'un bynnag fydd gyntaf.

3 Wrth benderfynu, at ddibenion paragraff 1(d), a allai fod angen i enw person gael ei hysbysu i'r Llywydd o dan adran 11 o'r Ddeddf, mae gofynion paragraffau (b) a (c) o is adran (3) o'r adran honno i'w hanwybyddu.